| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD** | **25 Chwefror 2021** |
| **TEITL** | **CYFLWYNO DRAFFT CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Gareth W Griffith** |
| **AWDUR** | **Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd** |
| **PWRPAS** | **Derbyn adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar fersiwn drafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a chymeradwyo'i defnydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Dogfen strategol yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, gwella a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Paratowyd CGHT gwreiddiol Gwynedd rhwng 2004 a 2007 a chafodd ei fabwysiadu gan Y Cyngor yn Hydref 2007.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol i adolygu eu CGHT ac wedi gosod amserlen ar gyfer paratoi'r adolygiad. Yn achos Gwynedd fe ddylai'r broses o baratoi'r adolygiad fod wedi'i gwblhau'n yn ystod 2019.
Nid yw Gwynedd, na nifer o Awdurdodau eraill wedi gallu cwblhau'r broses o fewn yr amserlen. Mae'r oedi o ganlyniad i bwysau gwaith o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad gan gynnwys y pwyslais sydd wedi ei roi i adolygiad Ffordd Gwynedd.

1.3 Bwriadwyd adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar yr 2il o Ebrill 2020, nid oedd yn bosibl oherwydd cyfyngiadau Cofid.

**2. CAMAU NESAF**

2.1 Amgeir fersiwn drafft o'r CGHT, mae strwythur y ddogfen yn cyd-fynd a chanllawiau'r Llywodraeth ac mewn sawl ffordd mae'n debyg i'r CGHT gwreiddiol sydd ar gael ar safle we'r Cyngor.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Cynllun-Gwella-Hawliau-Tramwy.aspx

2.2 Serch hynny mae'r Adolygiad yn gwahaniaethu o'r Cynllun gwreiddiol:

- Nid oes gofyn i'r Adolygiad gynnwys rhaglenni gwaith manwl gydag amcanion o gostau. Yn hytrach cyflwynir Datganiadau Gweithredu sy'n cyfleu amcanion a chyfeiriad ar gyfer y maes gwaith am gyfnod o hyd at ddeg mlynedd. Byddai'n annoeth i unrhyw Awdurdod gyflwyno rhaglenni manwl a thargedau uchelgeisiol yn wyneb yr ansicrwydd parhaus sydd ynglŷn â chyllidebau Awdurdodau Lleol.
Yn hytrach bydd rhaglenni gwaith fesul blwyddyn neu ddwy yn cael eu paratoi sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Awdurdod a'r lefelau adnoddau sydd ar gael.

- Mae'r Adolygiad yn cyflwyno 3 prif thema yn hytrach na 6 fel yn y Cynllun Gwreiddiol. Dyma'r themâu'r ddogfen drafft :

**Thema A** : Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn Gwlad
**Thema B:** Y map a'r datganiad swyddogol
**Thema C:** Asesu a chwrdd ag anghenion defnyddwyr

2.3 Gofynnir am adborth a sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys y ddogfen drafft a hoffwn awgrymu ystyriaeth i'r canlynol :

- Oes yna feysydd sydd heb eu hystyried neu heb eu hystyried yn ddigonol ?
- Ydi'r Datganiadau Gweithredu yn cyfleu beth yw gofynion a dyheadau pobl Gwynedd am fynediad i Gefn Gwlad am y ddegawd nesa ?

2.4 Mae'n ofynnol i'r ddogfen drafft fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o ddim llai na 12 wythnos. Cyn ei chylchredeg bydd sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hymgorffori ac addasir edrychiad a diwyg y ddogfen.

**3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymuned i gynnig sylwadau ar y ddogfen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ac yn amodol ar ymgorffori'r sylwadau i awdurdodi'r Adran Amgylchedd i'w defnyddio i bwrpas ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr Adran yn ystyried y sylwadau a dderbynnir a chyflwyno fersiwn terfynol o'r CGHT yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**4. ATODIADAU**

4.1 Atodiad 1: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (drafft)